

## LLEISIAU O LAWYR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Hufenfa Felin Fach, Ceredigion (1971-79)

Cyfwelai: VSW054 Mrs Evana Lloyd

Dyddiad: 17: 04: 2014

Cyfwelydd: Catrin Stevens ar ran Archif Menywod Cymru

*There is an English summary at the end of the Welsh text*

Cadarnhaodd Evana mai ei henw llawn yw Bethan Evana Lloyd a'i dyddiad geni yw 29ain Ebrill, 1954. Ei henw morwynol oedd Evans.

Mae'n byw yn y tŷ y cafodd ei geni ynddo. Roedd ei thad a'i mam yn byw yma gyda'i mam-gu. Roedd ei thad-cu a'i mam-gu yn byw yn Llundun, yn berchen ar siop 'dairy' ac roedd ganddyn nhw rownd lâth. Daethant yn ôl a phrynu'r fferm, gan symud i mewn yn Hydref 1939. Roedd ei mam tua 13 oed ac wedi cael addysg mewn ysgol i ferched yn Llundun, dod nôl i Geredigion, a ffindiodd hi hi'n anodd i setlo i mewn i Ysgol Sir Aberaeron. Roedd ei thad-cu, oherwydd eu bod wedi methu â gwerthu'r siop yn Llundun, yn dal yn Llundun, a ddaeth e ddim nôl tan 1946. Ffermio fuon nhw wedyn ac roedd ganddynt rownd lâth yn Aberaeron (mae potel ganddynt o hyd ag enw Dolgwartheg arni). Cwrddodd ei mam wedyn â'i thad – bachgen lleol o Gilie Aeron, priodon nhw a daeth ei thad i fyw yn Dolgwartheg hefyd. Cafodd ei chwaer hynaf ei geni yn 1951, ei brawd hynaf yn 1953, hithau yn 1954. Yna yn 1959 cafodd ei thad a'i mam ffarm eu hunain, Pantyrhen Fawr yn Dihewyd. Oherwydd hyn, daeth Wncwl Dai, brawd Nan (ei mam-gu), i lawr o gartre'r teulu Eithin-gleision, a fe wedyn oedd yn ffarmio gyda'i mam-gu (ymddengys bod ei thad-cu wedi marw erbyn hyn).

Aeth i ysgol gynradd Dihewyd, ac yn naturiol ymlaen i Ysgol Sir.Aberaeron. Yn y cyfamser, erbyn 1969, roedd iechyd ei hwncwl Dai wedi dirywio yn ddifrifol, ac felly roedd hi ac Aeronwy (ei chwaer) yn dod nôl i Ddolgwartheg ar gyfer helpu gyda'r gwely a brechwast ac yn y blaen. **'Allan on i gyda'r anifeilied'**. Mae'n cofio dweud hefyd bod brawd arall ganddi - wedi ei eni yn Nihewyd, sef Lyn, a fe sydd gartre ar y ffarm deuluol o hyd.

**3.00**

Gan fod iechyd ei hwnawl Dai wedi torri lawr gofynnodd Nana iddi a wnâi hi aros ymlaen a helpu gyda'r ffarm. 'Odd deuddeg o wartheg 'da fi i odro cyn mynd i'r ysgol y bore a dod gatref nos, a on i wrth fy modd achos person awyr agored odw i a dwi'n hoff iawn o fod allan. Y bwriad odd wedyn odd mynd mlân yn 'r ysgol, a on i am fynd i Goleg y Drindod i neud Cymrâg a Chwaraeon. Ond fe gês i *ultimatum*, gyda mam-gu - os on i'n mynd i'r Coleg odd rhaid gwerthu'r gwartheg. Wel, odd hynna ddim i fod. A Mam yn dod ar y ffôn 'da fi rhyw noson - on i wedi mynd nôl i'r ysgol, i Chwech Un on ni'n galw fe, on i wedi mynd nôl i'r ysgol i neud Lefel A, a Mam ar y ffôn, tua ganol mis Ebrill i weud bod gen i gyfweiliad yn y Labordy yn Ffatri Felin Fach. A wedes i "Wi ddim yn mynd am ddim un *interview*", os wedes i, achos on i isie mynd mlân yn 'r ysgol. Ond wrth gwrs, y bygythiad odd, bydden i'n colli'r gwartheg - a dyna shwt gês i gyfweiliad yn y Ffatri Lâth, gyda'r Rheolwr Mr Phillips (y diweddar Mr Phillips) a Gwyn Evans - fe odd y Dirprwy-Reolwr, a wedyn on i'n dechre yn y Labordy ar y dydd Llun. A dwi'n cofio, on i'n gadel Ysgol Sir Aberaeron, y dwrnod on i'n ddwy ar bymtheg ôd a wi'n cofio mynd lawr rhiw yr ysgol ac erbyn edrych nôl - 'Wela i byth 'ma 'to'. Ond odd hi'n gyfnod bendigedig i fynd i witho 'na, ma'n rhaid i fi weud chm'bod, wi wedi bod yn sobor o lwcus i fod yn y lle reit, amser reit, achos bues i yn y Ffatri am bron i naw mlynedd ... 21ain Ebrill odd hi 1971.

*Shwt och chi'n teimlo ambyti gadel ysgol? Och chi'n swno'n drist ...*

On i'n teimlo 'm bach yn drist achos on i'n hoff o ysgol. Ond y trwbwl odd hefyd chwel, on i'n whare lot o hoci a on i trw'r dydd a bob dydd yn y gampfa yn whare hoci ne ar y câ, ne yn whare hoci dros yr ysgol, dros y sir, a gethon ni - dwy ohonon ni, dreialon wedyn i whare hoci dros dde Cymru. Ond falle 'ma bach o *cushy time* odd hi chwel, a falle bo nhw wedi gweld trw'r peth a bod hi'n bryd i fi gâl bach o waith.

Nawr, allan o'r pedwar ohonon ni, dwi'n cyfadde ar un adeg odd gen i bach o *chip* ar yr ysgwydd bo nhw wedi *stage* manejo bo fi'n gadel yr ysgol er mwyn câl y gore o ddau fyd. Chm'bod, dwi ddim yn drist ambyti fe, wi itha hapus, ond on i jyst yn timlo - gâth Aeronwy gyfle i fynd lan i'r Coleg yn Wrecsam, gâth William 'mrawd brentisieth gyda Greens yn Llambed mewn *agricultural mechanics*, a gâth Lyn, y brawd ienga, fynd i goleg Aberteifi i neud gwaith *bricky*. Wel, on inne wedyn yn mynd o'r ysgol yn syth mewn i swydd, ... ond ch'mbod, er bo chi'n mynd i witho yn y Labordy, on nhw'n gofyn am canlyniade arholiade, ond â i ddim i weud bo nhw'n angenrheidiol, achos odd pawb yn câl 'u trin yr un peth, a och chi'n câl 'ch dysgu trw bob rhan odd yn y Labordy. Nawr y *Chief Analyst* odd Mrs Evans, a hi wedyn odd yn 'n dysgu ni - rhoi chi ochor yn ochor wedyn gyda'r merched hyna odd gyda hi odd wedi bod yn y Labordy ers sawl blwyddyn, a digwydd bod Carol Lewis o Pennant odd honno a odd Ann gyda fi wedyn o Garth-heli. So och chi'n dysgu, fel ma nhw gweud 'ar y job'.

6.55

Pan ddechreuodd yr wythnos gyntaf roedd ar '*Dispatch*' - adran yn derbyn bob lori oedd yn dod i fewn, - er bod llaeth yn dal i ddod mewn mewn tsiyrns, roedden nhw wedi dechrau

casglu *in bulk* hefyd. Felly roedd pob lori oedd yn dod i'r iard, roedd y bechgyn yn gorfod dringo lan ar ben y lori, cymryd sampl o'r llaeth a dod â hwnnw mewn i'r Labordy i gael ei ddadansoddi. **'A och chi'n neud prawf wedyn – rhoi llâth mewn *test tube*, a och chi'n rhoi 1ml o fel *dye* glas ar 'i ben e a odd hwnnw'n mynd mewn wedyn i'r *water tubs*, mewn gwres pwrpasol, so os odd unrhyw – os odd drwg yn y llâth, odd e'n troi o las lawr i wyn. Os odd e'n wyn odd e mwy neu lai bron yn suro. ... Gan gofio bo Felin Fach bryd hynny yn prosesu llâth ar gyfer powdwr a menyn, a wedyn odd y gweddill, fel y *whey*, yn câl mynd i ffwrdd wedyn, .. so odd rhaid bod llâth o ansawdd bendigedig.**

Y Milk Marketing Board – y Bwrdd Marchnata Llaeth, oedd enw'r cwmni bryd hynny. Mae wedi newid dwylo sawl gwaith ers iddi hi adael. A **'wi'n dueddol i alw, yr hewl Fflats yr MMB, ... ma'r bobol hŷn yn gweud chm'bod, am yr hewl sy'n paso hibo.'**

Wrth hyfforddi ar y dechrau byddai pob un yn cael rhyw wythnos yn y gwahanol adrannau: profi'r llaeth oedd yn dod i mewn o'r lorïau, neu pan oedd llaeth yn dod mewn gyda'r tsiyrns, roedd e'n cael ei dipio i mewn i beth oedd yn cael ei alw'n *dump tank*, sef tanc mawr a odd e'n cael ei bwysu, a roedd gyda chi ddwy *funnel*. Bydda'r tsiyrns o un fferm i gyd yn cael eu cadw gyda'i gilydd – faint bynnag oedd ohonyn nhw. Roedd yn rhaid gwneud sampl o ansawdd y llaeth yn y tanc hwnnw wedyn. Fel yr oedd yr amser yn mynd yn ei flaen roedd yn rhaid profi a oedd *antibiotics* yn y llaeth, Os oedd *antibiotics* ynddo doedd hi ddim yn bosibl gwneud caws ag e – odd e ddim yn 'cyrdlo'.

Roedd adrannau gwahanol yn y Labordy. *'Loads'* oedd yr enw am brofi llaeth y ffermwyr- ar un adeg bu ganddynt laeth 1,400 o ffermydd, o dros Ceredigion i gyd. Wedyn roedd gyda chi brofi'r menyn a *moisture* a halen; roedd gofyn cael dwy wedyn yn y powdwr, achos roedd un yn gwneud y profion ar y powdwr a'r llall wedyn nôl a mlân – at y *dryer*, pen arall y ffatri i neud sampl i weld bod y powdwr yn lân. **'Odd 'da chi lot o waith golchi lan, lot o *test tubes* i olchi lan, lot o boteli i olchi lan, popeth yn gorffod mynd i'r ffwrn i gâl 'i steraleisio, hyd yn oed poteli plastig – rodd rheiny'n gorffod câl 'u golchi a'u 'soako' wedyn, ... am ryw hanner awr, ...on ni hyd yn oed yn gorffod neud arbrofion ar *effluent* – beth odd yn câl 'i ddanfôn lawr y drêns. .. So och chi'n hala wthnos ar bob *bench*, ar bob adran.**

## 11.11

Roedd angen felly o leia 8 merch i weithio y dydd a hynny saith diwrnod yr wythnos. Y nhw hefyd oedd yn gwneud y gwaith gweinyddol i gyd hefyd. .Ar gyfer pob prawf roedd ffurflen i gofnodi popeth. Roedd yn rhaid cofnodi hwn ar ben bob deg munud, bob hanner awr ac awr. **'Pan och chi'n neud beth on nhw'n galw'n *producers* wedyn, pan och chi'n neud profion ar llâth pob ffarm, odd 'da chi shŷts mawr fan 'ny wedyn – dwy yn cydwitho da'i gilydd, a och chi fod i ysgrifennu wedyn a danfon y *slips* allan gyda'r canlyniade i'r ffermwyr, - gwneud y gwaith hwn dros gyfnod o fis.**

Byddent yn profi llaeth bob ffarm bob mis. Os oedd unrhyw beth o'i le, efallai byddai'n rhaid cael ail sampl, ond pur, pur anaml oedd hynny. Doedd y ffermwyr ddim yn gwybod pryd roedd eu sampl nhw yn cael ei gwneud. Ar un adeg roedd yno ddwy ddec ac efallai y byddai

pedair lori yn aros i ddad-lwytho yr un pryd. Yn ystod yr haf roedd gofyn bod un person lan ar y dec yn profi'r llaeth rhag ofn ei fod yn sur yn dod yn y tsiyrns. Os oedd y llaeth yn sur roedd yn rhaid rhoi label goch arno a'i anfon yn ôl i'r fferm. Byddai'n rhaid gofyn i yrrwr y lori fynd â'r tsiyrn nôl. **'Fi'n cyfadde, gethon ni ambell i tsiyrn bach nôl fan hyn yn Dolgwartheg! gan gofio bod 'n stand lath ni yn llygad yr haul trw'r dydd.** ' Ond roedd hyn yn 'lwcus' falle achos gellid defnyddio hwn ar gyfer y moch. Roedd pawb bryd hynny yn cadw moch. Roedd hyn yn lletchwith ond pan oedd hi'n dwym ofnadwy – mae tymheredd yn yr awyr yn gallu suro pethau. Un haf bu'n *non stop* yno gyda llaeth sur ofnadwy. **'A och chi jyst yn codi clawr y tsiyrn a och chi'n aroglu fe a och chi'n gwbod ... wrth 'i smell e bod rhywbeth yn bod.'** Wrth ei brofi byddai'n troi o'r glas i'r gwyn o dan y deg munud oedd yn profi'i fod e'n sur.

Mae'n cofio'i ddiwrnod cyntaf yn y gwaith - mae'n cofio mynd lan i'r ffatri, - cafodd ei hebrwng i mewn o adre'r diwrnod hynny – a mynd i'r Labordy. Roedd wedi cwrdd â Mrs Evans, y *Chief Analyst*, ond doedd hi ddim yn nabod dim un o'r merched eraill (na, roedd yn nabod un ond gorffennodd hi'n syth ar ôl i Evana ddechrau yno). **'Sdim lot o hanes bod rhywun wedi bod 'na am flynydde a blynydde ... (noda bod Carol wedi bod yno 20 – 30 mlynedd falle) ond y tueddiad yw, es i 'na wrth gwrs yn syth o'r ysgol, a 'nes i orffen pan on i'n feichiog gyda Hywel.... 'Na beth odd y patrwm, a chm'bod edrych nôl, ... ma Hywel nawr yn 35, yntefe, gath e ei eni yn 79, chês i ddim dewis, nath neb ofyn 'Wyt ti'n dod nôl i witho?' Pan och chi'n câl 'ch teulu, och chi'n gorfod bod gartre. Ma'r oes yn hollol wahanol heddi, on'd yw hi?'**

## 15. 22

*Och chi'n teimlo mai dyna beth odd yn naturiol? Och chi ddim yn cwestiynu fe ar y pryd?*

**'Na, dorres i nghalon a gweud y gwir. Dwi'n gwbod, edrych nôl a odd y gyflog ddim yn ddifrifol o dda, ond och chi'n câl lawer gwell gwerth am 'ch arian pryd hynny, nag ych chi heddi.**

Ar ei diwrnod cynta – 'y peth cynta odd Mrs Evans yn neud wedyn odd mynd â fi lan i'r stores achos odd rhaid i chi gâl *overalls* gwyn, och chi'n câl cap gwyn, odd dim cymint o ffys a ffair ambyti sgidie pwrpasol pryd hynny, ac wrth gwrs odd *dress code* i gâl, odd dim hawl 'da ni i wisgo trowseri, ... pan ych chi'n dringo dros ben tsiyrns a pethe, a neud pethe chi ddim fod, a handlo asid a hwnnw'n sblasho – ma asid yn byta miwn i ddillad yntefe, ond ... on ni wastad yn y cote gwyn a ... odd gofyn bod y llewyse lan achos och chi'n y sinc rownd abowt. Wel, odd dillad yn eitha byr yn yr oes 'ny yntefe, odd dim gwiniio hem wedyn – och chi'n troi hem yr *overalls* lan â staplwr! ... On ni'n moyn iddyn nhw fod yn fyr - mini! Ond ... fe gaethon ni, chware teg, fe gaethon ni ganiatâd i wisgo trowseri, ond odd dim hawl 'da ni i wisgo jîns – trowseri du ... tywyll ... Ond fe ddaethon nhw miwn wedyn bod rhaid i ni wisgo sgidie *steel toe caps* – ond 'na'r sgidie mwya anghyfforddus fuodd dan haul.

O dan yr *overalls* bydden nhw'n gwisgo'u dillad eu hunain. Roedd yr *overalls* yn rhai cotwm trwm. Capie am eu pennau **'Odd dim hawl 'da chi fynd allan i'r dairy mewn ffordd heb**

fod ‘da chi gap am ‘ch pen. ... Odd y dillad odd gyda ni yn addas i orchuddio a arbed beth odd gyda ni.’ Roedd bathodyn yr MMB mewn glas ar y boced. ‘On ni’n gorffod cadw beiro yn boced ar y dde, poced lawr yn hytrach na’r *bib pocket*, achos os och chi’n mestyn mewn i’r tanc i godi llâth, gallen nhw fod yn cwmpo mewn.’ Gallai fynd lawr trwy’r pwmp a byddai hi *off* wedyn a phethau ar stop.

‘Os och chi’n colli sbotyn o asid – fi’n cofio dod gartre ryw dro, on i wedi colli asid, on i wedi cario asid o – on ni’n ddefnyddio fe ar gyfer neud ansawdd *fats* yn llâth, a wrth gwrs och chi’n gorffod gwisgo – odd ‘da ni *visors* i gâl a *goggles plastic*, ond pan och chi’n gorfod cario poteli wedyn, odd Tommy Stores yn llanw poteli o gasgen yn y maes parcio, och chi’n câl ryw *container* arbennig wedyn, a odd e yn sblasho, ... a dwi’n cofio dod gartre ryw dro – odd ‘da fi ddim teits ar ôl i gâl – odd y cwbl wedi briwo. ... ond odd asid yn byta mewn i’ch dillad chi yn rhwydd iawn.’ Roedd yr *overall* yn mynd i’r *laundry* wedyn a doedd dim rhaid iddyn nhw eu golchi. Roedd pawb yn anfon eu dillad i ffwrdd fel hyn – yr *engineers* a phawb. ‘Os och chi’n gwitho o fewn y Ffatri odd pawb yn gwisgo *overalls*.’ Cred mai dwy *overall* roedd pob un yn ei gael, ond os oeddent wedi’u briwo, byddai Mrs Evans yn dweud ‘Well i chi fynd lan i’r Stores i gâl un arall.’ Byddai hi’n arwyddo papur wedyn. Mae’n cyfaddef ei bod hi’n dueddol i dorri coes mop wrth lanhau (nid yn fwriadol), a byddai’n cael stŵr am hynny ac eto roedd yn rhaid arwyddo am un newydd. ‘So odd rhyw fath o system i gâl, hyd yn oed nôl yn y saithdege, o ... gadw cownt o beth oedd yn cael ei ddefnyddio o’r Stores.

## 22.15

‘Yr unig dro och chi’n gwisgo menyg odd pan och chi’n golchi – golchi poteli achos och chi’n defnyddio Dymex – stwff coch, ... a dŵr mor dwym ag och chi’n gallu godde’ – rinso nhw allan a rhoi nhw drwyddo yn y ffwrn i sychu dros nos.’ Doedd dim peiriant golchi – gwaith llaw i gyd. Pan oedd hi’n gwneud profion ar gyfer powdwr, roedd yn rhaid steraleisio popeth yn yr *Autoclave*, sef rhywbeth tebyg i *pressure cooker* – rhaid gofalu ar ei ôl neu gallai chwythu lan.

Os byddai asid yn tasgu ar eich dwylo - ‘dŵr ôr yn syth’. ‘O ran iechyd a diogelwch odd e digon saff’. ‘Dan y tap dŵr ôr a gadel iddo fe redeg ddigon – yn syth.’ O safbwynt y llygaid roedd yn rhaid gwisgo *goggles*.

O safbwynt sŵn – roedd y Labordy drws nesa i’r dec, roedd y Lab yn un hir o’r top i’r gwaelod, yn hytrach nag yn un sgwâr. Pan ddechreuodd hi’n y Ffatri roedd yr hen Lab yno, ystafell fach sgwâr, ond cafodd ei hadnewyddu wedyn ac aeth hi’n un hir. Ac mae’n cofio fod rhyw faint o *teething troubles* pan aethon nhw nôl i mewn i’r Lab newydd a phethe’n lletchwith, ‘a fi’n cofio Mrs Evans yn gweud “Wel beth ych chi’n ddisgwyl pan ma dyn sydd wedi tynnu’r *plans*” chm’bod i neud y Lab .. se’n well se nhw wedi gofyn i’r merched neu iddi hi ‘*Right, how are things going to work? How is it easier for you?*’ O ganlynid roeddent lan a lawr drwy’r dydd – ond ble bynnag roeddech chi’n sefyll yn y Lab roeddech chi’n gallu gweld reit rownd – ond bod angen rhedeg lan a lawr. Yn y Labordy newydd roedd y powdwr lawr y gwaelod, y menyn yn y canol, llaeth yn dod i mewn fan hyn

a'r Llwythi o'r ffermydd ar y top ble oedd y sincs a'r ffwrne achos roedd yn rhaid rhoi hyd yn oed y corcyn ar dop y botel ac ar dop y *test tube*, - berwi'r rheiny am hanner awr i steraleisio nhw. Roedd yn rhaid bod yn lanwedd yno gan eich bod yn defnyddio poteli ddiwrnod ar ôl diwrnod .... Bu'n gwneud profion, wrth i'r amser fynd yn ei flaen am bethau fel *antibiotics*, felly roedd yn rhaid gofalu nad oedd yno *cross contamination*. Mae'n cofio pan ddaeth y *brucellosis* i mewn – ond roedd hwnnw yn mynd i ffwrdd i Worcester – potel fach a label arni yn perthyn i bob ffarm – roeddech yn sticio'r label arno yn ôl y fferm – roedd mwy o waith papur, a rhoi sampl o'r llaeth mewn cwpan bach plastig a rhoi smotyn o'r stwff pinc yma ar ei ben e, ac roedd fan yn dod ddwywaith yr wythnos i gasglu'r samplau hyn ar gyfer *brucellosis*. Ond unrhyw brofion eraill y byddai ffermwr ei eisiau – gallent ei wneud yn y Labordy – hyd yn oed os oedd dŵr yn y llaeth. Nid oes ganddi hanes am ffermwyr Ceredigion yn rhoi dŵr ar laeth. Roedd hyn yn digwydd mwy gyda'r *bulk*, yn enwedig pan oedd y ffermwyr yn mynd i mewn i *bulk* tanc achos roedden nhw'n rhoi'r llaeth yn pwmpo drwyddo mewn i'r tanc achos on nhw'n rhoi e i olchi wedyn a **'Wpsi, wi wedi anghofio tynnu'r beipen mas! Ond chware teg, naw gwaith mas o ddeg, och chi'n câl y ffarmwr yn ffono i weud "Wi wedi câl damwen, wi wedi anghofio tynnu'r beipen ddŵr off.'** Byddent yn anfon fan allan wedyn i gasglu sampl o'r fferm. Ar ddiwedd y dydd cred eu bod (y ffermwyr) yn fwy gonest achos roeddent yn cael llai o gosb. Byddai'n bosibl dweud yn y ffatri yn gywir pa laeth oedd wedi dod o ba fferm ac os oedd dŵr dychrynlyd yn unrhyw laeth byddai *spot check* drannoeth. Roedd yn talu iddynt fod yn onest yn y pen draw achos ar ansawdd y llaeth roeddent yn cael eu talu.

## 27.00

Doedd y gyrrwyr ddim yn gwybod pryd fyddai llaeth fferm arbennig yn cael ei brofi chwaith – byddai rota a châi'r *bulk* ei samplo bob wythnos, ond fyddai neb byth yn gwybod, - disgrifio'r broses. Cred bod y gyrrwyr yn sticio at eu *route* nhw am ache ond fydden nhw ddim yn gwybod tan y bore o ba ffermydd y byddai angen sample. Ond os byddai ail-sampl oherwydd bod rhywbeth yn bod, eto ni fyddai'r gyrrwr yn gwybod nes y byddai yn clywed heno ei fod i samplo bore fory.

Nid oedd hi'n gwisgo *wellingtons* wrth ei gwaith achos doedd hi ddim allan yng nghanol dŵr, ond cafwyd y *steel toe caps* oherwydd gallai tsiyrn rollo ar eich troed, yn enwedig pan oedd hi'n *'flat out'* a lot o laeth yn dod i mewn.

Welodd hi ddim chwarae triciau ar ferch newydd yn dechrau yn y gwaith, **'Wales i mo 'na o gwbl, ma rhaid i fi weud, achos on ni fel un teulu mowr 'na a gweud y gwir.'** Cred, ar yr adeg yr oedd hi yna, bod un ar ddeg o ferched yn y Labordy – roedd angen cael saith-wyth yno bob dydd. **Mae ganddi frith gof wedyn bod bachgen wedi dod i weithio yn y ffatri – mynd i'r stafell menyn ac yna dechrau dod i mewn i'r Labordy, ond roedd hi wedi gorffen cyn iddo ddechrau o ddifri i hyfforddi fel *analyst*. 'Och chi'n mynd mewn i'r Lab i ddechre, wedyn och chi'n gwitho'ch hunan lan. Es i ffwrdd wedyn, pan on i wedi bod yna ryw ddwy flynedd a hanner, ges i'n anfon i ffwrdd wedyn i ffatri gyda'r MMB yn Maelor lle och chi'n câl 'ch dysgu wedyn y gwahanieth, chm'bod, paso profion i fod yn *analyst*.'** *Lab assistant* oedd hi cyn hynny, ond wedi bod trwy'r adrannau i gyd roedd yn cael

mynd i ffwrdd ar gwrs – ryw wythnos a hanner – a dod nôl ac roeddech o safon i wneud y gwaith. Roedd Mrs Mildred Evans yn dal yna - **‘hi odd â’r gair dwetha achos os odd unrhyw broblem, och chi’n mynd ag e ati hi.’** Roedd hi o gwmpas drwy’r amser. **Merched oedd gweithwyr y Labordy i gyd.** Nid yw’n gwybod pam a doedd yr un ferch yn gweithio allan yn y Ffatri ei hunan – neb yn y powdwr, neb yn y *separator*, lle roedden nhw’n gwahanu’r hufen a’r llaeth. Roedd tipyn o sŵn peiriannau fan hynny.

Pan ddechreuodd hi weithio yn y ffatri roedd y menyng yn cael ei wneud mewn tair fuddai ac mae un ohonyn nhw ar ben hewl y Ffatri Laeth heddiw, ond erbyn iddi orffen roedd e i gyd yn otomatig – *butter maker* – clamp o beiriant *stainless steel* - hufen yn mynd mewn un pen ac yn cael ei boeri mas yn solid pen draw. **‘Na’r unig dro on ni’n gorffod dechre’n gynnwys odd och chi’n câl wthnos ar y menyng – och chi miwn wedyn erbyn cwarter i saith y bore, achos on nhw’n dechre neud y menyng am saith. Och chi’n neud prawf wedyn ar yr hufen, i weld beth odd *butter fat* hwnnw a wedyn on nhw’n gallu adjysto’r peiriant wedyn bod e’n troi’r menyng mas ar yr ansawdd cywir. Dwi’n cofio hefyd gwitho dydd Dolig, dydd Gŵyl San Steffan a Dydd Calan, achos ... odd y ffatri yn mynd saith dwrnod yr wthnos.**

Mae’n cofio hefyd ar ddechrau Rhagfyr byddai’r llaeth yn mynd bant i gyd oherwydd roedd y llaeth yn cael ei botlo (*bottling*) – dyma’r flaenoriaeth er mwyn codi stoc ar gyfer Nadolig. Wedyn roedd y rhod yn troi - noswyl Nadolig, dydd Dolig, dydd *Boxing*, roedd y llaeth yn dod yn ôl i mewn. Mae’n cofio lorïau Willis o Wrecsam yn dod i mewn - tanceri mawr o laeth, un ar ôl y llall. **‘Odd y powdwr yn mynd bron bedair awr ar hugen wedyn, y menyng yn dod mas o’ch clustie chi – on nhw’n gorffod defnyddio’r llâth ‘ma lan. So odd e’n mynd allan o’r sir ar un adeg, dechre gwedwch Rhagfyr, câl bildo stoc i fyny a wedyn *look out ...*’**

### 33.10

Mae’n ansicr o’i horiau arferol (?) hanner awr wedi wyth hyd bump. **‘A och chi’n mynd trw’r dydd, och chi ar ‘ch trâd trw’r dydd. On ni’n câl deg munud i gâl paned yn y bore, mynd draw yn y cantîn, och chi’n câl hanner awr i gino,** (doedden nhw ddim i gyd off gyda’i gilydd – *staggered* – roedd yn dibynnu ar ba swydd oeddech chi) Roedd y rhai ar y powdwr yn gweithio’n fwy annibynnol na gweddill y staff. Os oeddech chi ar Llwythi wedyn lle roeddech chi’n disgwyl lori i mewn roedd yn rhaid cael cinio cynnar neu ddiweddar. Fydech chi ddim yn gofyn i’r dreifwr aros hanner awr tra’ch bod chi’n cael cinio. **‘Odd hi’n syndod – och chi’n câl dwy, falle bron tair cenhedlaeth yn gwitho ‘na. Odd e’r teip ‘na o le, le odd e’n gartrefol a pob un yn nabod ei gilydd. Fi’n credu och chi’n câl swydd os odd un o’ch teulu chi’n gwitho ‘na.’** Hon oedd yr unig ffatri ar y pryd yn yr ardal. Ni fyddai’n gwneud llawer o *overtime* ond os nad oedd Mrs Evans yna byddai un o’r gweithwyr eraill yn gyfrifol am y Lab. A phetai problem gyda rhyw sampl wedyn, roedd yn rhaid mynd i chwilio am *supervisor* neu cael gafael yn un o’r bechgyn a dweud bod rhywbeth o’i le ar y Llwyth. Os byddai’n cael ei ddadlwytho wedyn, byddai’n rhaid defnyddio’r llaeth yn gloi. Roedd seilos yno hefyd yn dal tua 25,000 o litrau / neu galwyni o laeth – petai un llenwad o laeth drwg yn mynd am ben hwn byddai’n troi’r cyfan yn llaeth sur. Roeddech chi’n gallu

gorffen eich gwaith erbyn diwedd y dydd – **‘Odd pob un yn helpu’i gilydd.**’ Yn meddwl ei bod yn dechrau am 8.30 a gorffen ‘marcie pump’. **‘Ond odd rhaid i chi bennu’ch gwaith, odd dim iws i chi adel - och chi ddim yn gallu gadel pethe heb – erbyn fory. Odd rhaid i chi orffen beth bynnag odd ‘da chi a neud yn siwr bod y cwbl wedi’i olchi lan, bod y sines yn lân a bod popeth mewn yn y ffwrn, hyd yn oed golchi’r llorie a buon ni hyd yn oed yn glanhau’r gwydyr o fewn y Lab. Roedd y *water tanks* i wneud y profion fel copor ‘a whare teg, pan odd Mrs Evans yn mynd ar ei gwylie, on ni wastad yn neud yr ymdrech wedyn fod y cwbl yn sgleinio erbyn bydde hi miwn bore dydd Llun.’**

Byddent yn gweithio pump diwrnod yr wythnos mewn cylch – roedden nhw’n eitha hyblyg ynglyn â hyn. **‘Le on i’n lwcus, achos on i gartre fan hyn hefyd, odd anifeillied ‘da ni, so os odd angen mynd â llo i’r mart, on nhw’n gofyn wedyn, - odd un o’r merched yn neud y rhester ar ddydd Gwener am yr wthnos ar ôl ‘ny, so odd hi’n gofyn “Wyt ti’n moyn rhywbeth arbennig off”. “O ie, ma isie mynd â llo i’r mart arna i dydd Mowrth. Alla i gâl dydd Mowrth off plîs?”** Nid oedd hyn yn rota – gallent gael dau ddiwrnod off ganol wythnos, byddech chi’n gweithio ar ddydd Sul – trwyddo wedyn. Newidiodd pethau wedyn a gallen nhw gael penwythnos i ffwrdd – y dydd Sadwrn a’r dydd Sul off gyda’i gilydd. Nid yw’n gallu cofio a fyddai’n cael mwy o arian am weithio ar ddydd Sul. Ond mae’n credu petai’n gweithio ar Wyl y Banc neu Dolig, roedden nhw’n cael *double time*. Cred fod yr oes wedi newid a bod gofynion pobl heddiw ‘yn gryfach na’r gwaith’ ambell waith.

Byddent yn cael tair wythnos o wylie – wythnos ar y tro, neu cymryd diwrnod fan hyn a diwrnod fan draw. **‘On nhw’n hyblyg iawn fel ‘na ma rhaid i fi weud. Alla i byth ag achwyn, odd e’n le grêt i witho, ma rhaid i fi weud.’**

Cred mai tua £9 a rhywbeth yr wythnos oedd ei chyflog cyntaf. Byddent yn cael llai na’r dynion. Caent eu talu bob wythnos ac roedd yn rhaid mynd lan i’r swyddfa, lle roedd merched eraill yn gweithio a chael eich *pay packet*, a byddech yn arwyddo amdano. Roedd ganddi rif yn y ffatri ‘bownd o fod’ ond nid yw’n gallu ei gofio. Byddai’n cloco mewn a cloco mas – carden yn nodi’r oriau ac o hyn y byddai’r cyflog yn gweithio. **‘Ping! ar y cloc’.**

### 39.16

O safbwynt y gwyliau fyddai hi ddim wedi bod yn bosibl i ferched y Labordy fynd ar wyliau gyda’i gilydd. **‘Â i ddim i weud ‘n bod ni yn griw odd yn cymdeithasu gyda’n gilydd allan o’r gwaith, heblaw bod ‘da chi Cino Nadolig a wedyn odd ‘na ystafell chwaraeon i gâl, odd ‘da chi tenis bwrdd a darts.’** Ambell waith byddent yn cael gêmâu yno, **‘hyd yn oed buon ni’n whare tennis ar un adeg!’** Roedd y cwrt lawr ochr isa’r *transport*. Mae’n cofio chwarae twrnament tennis unwaith – gyda’r nos, ond chwarae tenis bwrdd a darts bob amser cinio. **‘Odd gyda chi fechgyn keen i gâl! Odd gofyn bo chi’n dipyn o wharaewr.’** Roedd hyn yn rhan o gymdeithasu. **‘Falle na fyddech chi’n gweld lot o’r bechgyn, ele wythnose hibo fyddech chi ddim yn gweld rhai o’r bechgyn odd yn gwitho yn y – heblaw amser bwyd yntefe – on nhw yn y ffreutur ‘run pryd â ni, ond och chi jyst yn teimlo odd pawb yn nabod pawb. Os nag och chi’n gweld rhywun am sawl wthnos och chi ddim yn teimlo bo chi’n colli dim byd.’**



Doedd dim tîmau – criced na phêl-droed na hoci yno (dim digon o ferched) - a doedd dim llefydd newid yno chwaith. Doedd dim cawod yn nhoiledau'r merched. Ansicr am y dynion. **'Na, odd e'n amser bendigedig. Chi'n teimlo os byddech chi troi'r cloc nôl, gallech chi fyw y bywyd 'na 'to.'**

Nid yw'n gallu cofio a oedd hi'n aelod o Undeb – roedd Undeb yno ond nid yw'n cofio a oedd hi wedi ymaelodi. Mae'n cofio bod rhyw helynt wedi bod yno ond yn ansicr a oedd e yn ei hamser hi yno.

O'i chyflog, roedd y *tax* a Yswiriant Cenedlaethol yn cael ei dynnu allan. Nid oedd cyfraniad at y clwb cymdeithasol.

Agwedd pobl leol at weithio yn y Ffatri? **'Odd e'n le lleol, a odd e'n creu swyddi, a hyd yn oed falle bod gyda chi ddwy genhedlaeth falle neu tair cenhedleth.'** Byddai myfyrwyr yn dod i weithio yno yn ystod gwyliau haf yn enwedig ar ochr y powdwr gan roi cyfle i'r bechgyn – roedd rhai bechgyn yn oedran ymddeol yno- caent gyfle i fynd ar wylie. Ddaeth neb atynt hwy i'r Lab gan fod y gwaith yn arbenigol – ond mae'n cofio am un fyfyrwraig ac aeth hi ymlaen i fod yn feddyg teulu.

Y berthynas rhwng y merched a'r dynion? Roedd tynnu coes **'Eto, odd 'da chi barch iddyn nhw, a on nhw hefyd, achos nabod 'ch teulu chi, on nhw'n 'ch parchu chi hefyd. A i ddim i weud – O! odd drygioni a cwato pethe .. a tynnu côs, ond a i ddim i weud bod 'na unrhyw gasineb ... pryfoco odd lot o fe yntefe – tynnu côs ... On nine ambell waith, chwel, yn pryfoco'r bechgyn wedyn. ... Falle bydden nhw'n dala chi a mynd â'ch esgid chi bo chi'n gorffod cerdded nôl ar draws yr iard ... *one shoe on and one shoe off!* – pallu rhoid esgid nôl. Rhyw dynnu côs, drygioni – dim malais ynddo fe.'**

Cafwyd dwy/dair priodas o fewn y ffatri. **'A i ddim i weud bod e'n *marriage bureau* ond oherwydd roedd 'na gysylltiad teuluol – odd pawb yn nabod 'ch teulu chi a och chi'n nabod teuluodd nhw. A och chi'n teimlo gyda lot o'r hen fechgyn bo nhw yn gofalu ar ôl ni – y to ifanc. On nhw'n teimlo bo fe'n ddyletswydd arnyn nhw – on nhw'n edrych ar ôl chi fel aelod o'u teulu nhw'u hunen, ma rhaid i fi weud. ... Odd lot o'r bechgyn odd yn y powdwr a'r *engineers* ..., on nhw'n ddynion yn hynach yn eu hoedran, odd 'u meibion nhw falle yn gweithio yn y Ffatri hefyd, so on nhw'n dadol iawn ac yn edrych ar 'ch ôl chi ac yn *serious* iawn.'**

#### 46.10

Cymraeg oedd iaith y Ffatri. **'Cymry on ni yn y Lab i gyd.'** Cymraes oedd Mrs Evans hefyd. Roedd hi'n atebol i Mr Gwynfryn Evans ar ôl i Mr Phillips ymddeol fel Rheolwr. Byddai e'n dod i'r Labordy dipyn hefyd ond os oedd problem byddent yn mynd at Mrs Evans. Byddai bachgen yn dod rownd hefyd, ansicr o'i swydd, ond roedd e'n cynrychioli'r ffermwyr a byddai'n gwneud *spot checks* – pan oedden nhw'n gwneud y Llwythi – byddai e'n dwblu lan ar eich sampls chi i weld bod ei *readings* e'r un peth â'ch rhai chi. **'Odd e'n dod o bryd i'w gilydd ac yn naturiol och chi ar bige'r drain'** yn poeni eich bod yn cael eich gwyllo.

Byddai hyn yn digwydd ryw ddwywaith y mis. Byddai jyst yn troi lan – heb unrhyw rybudd.

## **‘Byddech chi’n gweld y car yn troi lan a byddech chi’n gweud “O God! Ma fe ‘ma heddi ‘to! Odd e jyst yn cadw chi ar flan ‘ch trâd”**

